Polisi Diogelu Data

1. Trosolwg

Yn Amgueddfa Cymru, rydyn ni'n gwerthfawrogi preifatrwydd a diogelwch data personol. Mae'r Polisi Diogelu Data hwn yn amlinellu'n hymrwymiad i sicrhau diogelwch a chyfrinachedd gwybodaeth bersonol sy'n cael ei chasglu, ei phrosesu a'i storio gan ein sefydliad. Rydyn ni wedi ymrwymo i gydymffurfio â'r holl gyfreithiau a rheoliadau diogelu data cymwys er mwyn diogelu hawliau preifatrwydd unigolion.

2. Diben

Gweler y Trosolwg

3. Rhychwant

Mae'r polisi hwn yn gymwys i'r holl ddata personol sy'n cael ei gasglu, ei brosesu a'i storio gan Amgueddfa Cymru, boed hynny ar ffurf electronig neu ffisegol. Mae'n cynnwys yr holl gyflogeion, contractwyr a thrydydd partïon sydd â mynediad at ddata personol yn ystod eu dyletswyddau.

4. Y Polisi

Egwyddorion Diogelu Data

Rydyn ni'n cadw at yr egwyddorion a ganlyn i reoli'n harferion diogelu data:

a. Cyfreithlondeb, Tegwch, a Thryloywder: Rydyn ni'n casglu ac yn prosesu data personol mewn modd cyfreithlon, teg a thryloyw, gan sicrhau bod unigolion yn cael gwybod am y dibenion y mae eu data'n cael ei gasglu a'i brosesu ar eu cyfer.

b. Cyfyngu Dibenion: Mae data personol yn cael ei gasglu at ddibenion penodol, pendant a chyfreithlon, ac ni fydd yn cael ei brosesu ymhellach mewn modd sy'n anghydnaws â'r dibenion hynny.

c. Lleihau Data: Rydyn ni'n casglu ac yn cadw data personol sy'n angenrheidiol at y dibenion a fwriadwyd yn unig. Rydyn ni'n sicrhau bod y data a gesglir yn ddigonol, yn berthnasol ac yn gyfyngedig i'r hyn sy'n ofynnol.

d. Cywirdeb: Rydyn ni'n ymdrechu i gadw data personol cywir a chyfredol. Mae mesurau ar waith i gywiro neu ddileu data anghywir neu anghyflawn yn brydlon.

e. Cyfyngu Storio: Mae data personol yn cael ei storio dim ond cyhyd ag y bo'i angen i gyflawni'r dibenion y cafodd ei gasglu ar eu cyfer. Mae cyfnodau cadw yn cael eu diffinio a'u hadolygu'n rheolaidd.

f. Cyflawnder a Chyfrinachedd: Rydyn ni'n gweithredu mesurau technegol a sefydliadol priodol i sicrhau diogelwch, cyflawnder a chyfrinachedd data personol, gan ei amddiffyn rhag prosesu diawdurdod neu anghyfreithlon a rhag cael ei golli, ei ddinistrio neu ei ddifrodi'n ddamweiniol.

g. Atebolrwydd: Rydyn ni'n cymryd cyfrifoldeb dros gydymffurfio â deddfau a rheoliadau diogelu data perthnasol. Rydyn ni'n cadw cofnodion o'n gweithgareddau prosesu data ac mae gennym bersonél dynodedig sy'n gyfrifol am faterion diogelu data.

Casglu a Phrosesu

a. Sail Gyfreithlon: Rydyn ni'n casglu ac yn prosesu data personol ar sail un neu fwy o seiliau cyfreithlon, gan gynnwys cydsyniad yr unigolyn, cyflawni contract, cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol, diogelu buddiannau hanfodol, cyflawni tasg a gyflawnir er budd y cyhoedd, neu fuddiannau cyfreithlon a ddilynir gan y sefydliad neu drydydd parti.

b. Cydsyniad: Wrth ddibynnu ar gydsyniad fel sail gyfreithlon ar gyfer prosesu data, rydyn ni'n sicrhau cydsyniad clir a diamwys gan unigolion gan roi hawl iddyn nhw dynnu eu cydsyniad yn ôl unrhyw bryd.

c. Hawliau Testunau Data: Rydyn ni'n parchu hawliau unigolion o ran eu data personol. Mae gan unigolion hawl i weld data, ei gywiro, ei ddileu, cyfyngu ar ei brosesu, gwrthwynebu ei brosesu, cludadwyedd data, a pheidio â bod yn destun penderfyniadau awtomataidd.

d. Diogelwch Data: Rydyn ni'n gweithredu mesurau technegol a sefydliadol priodol i ddiogelu data personol rhag cael ei weld, ei ddatgelu, ei newid neu ei ddinistrio heb awdurdod. Mae'r mesurau hyn yn cynnwys rheolaethau mynediad, amgryptio, storio diogel, copïau wrth gefn rheolaidd, a hyfforddiant staff.

e. Proseswyr Trydydd Parti: Wrth gymryd proseswyr trydydd parti ymlaen i drin data personol ar ein rhan, rydyn ni'n sicrhau eu bod yn darparu gwarantau digonol ynghylch gweithredu mesurau technegol a sefydliadol priodol i ddiogelu'r data.

Rheoli Toriadau Data

a. Ymateb i'r Digwyddiad: Rydyn ni wedi sefydlu gweithdrefnau i ganfod, ymchwilio ac ymateb i doriadau data yn brydlon. Os ceir tor, byddwn yn asesu'r risgiau, yn cymryd camau angenrheidiol i liniaru'r effaith, ac yn hysbysu'r awdurdodau priodol a'r unigolion yr effeithir arnynt, fel sy'n ofynnol o dan y cyfreithiau a'r rheoliadau cymwys.

b. Cadw Cofnodion: Rydyn ni'n cadw cofnodion cynhwysfawr o'r holl doriadau data, gan gynnwys natur y tor, ei effeithiau, a'r camau unioni a gymerwyd.

5. Cydymffurfio â'r Polisi

5.1 Mesur Cydymffurfiaeth

Bydd y tîm Diogelwch Gwybodaeth yn gwirio'r gydymffurfiaeth â'r polisi hwn trwy amrywiol ddulliau, gan gynnwys, ymysg pethau eraill, cerdded drwodd o bryd i'w gilydd, monitro fideo, adroddiadau offer busnes, archwiliadau mewnol ac allanol, ac adborth i berchennog y polisi.

5.2 Eithriadau

Rhaid i unrhyw eithriad i'r polisi gael ei gymeradwyo gan y tîm Diogelwch Gwybodaeth ymlaen llaw.

5.3 Peidio â Chydymffurfio

Gall cyflogai y canfyddir ei fod wedi torri'r polisi hwn wynebu achos disgyblu, hyd at a chan gynnwys terfynu cyflogaeth.

6 Safonau, Polisïau a Phrosesau Perthynol

D/G

7 Diffiniadau a Thermau

8 Hanes Diwygiadau

Dyddiad y newid	Y Sawl sy'n Gyfrifol	Crynodeb o'r Newid
06/2024	Data Protection Team	Dim newidiadau
06/2025	Data Protection Team	Dim newidiadau
06/2026	Data Protection Team	Dim newidiadau